Newyddion y Cyfnod Sylfaen

Y CYHOEDDIAD AR GYFER NEWYDDION A GWYBODAETH YN ABERTAWE

City & County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

TYMOR YR HAF 2008

Croeso i rifyn yr haf o Newyddion y Cyfnod Sylfaen.

Wrth i ni ddod i ddiwedd blwyddyn academaidd brysur iawn, dyma gyfnod i ni fyfyrio ar effeithiolrwydd ein harfer a'n darpariaeth bresennol.

Fel tîm, rydym ni wedi gweld effaith gadarnhaol gyffredinol mewn ysgolion a fu'n bresennol yn ein modiwlau hyfforddiant eleni. Yn yr un modd, mae nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau perthnasol wedi cynyddu wrth i'r momentwm tuag at newid athroniaeth gynyddu. Rydym wedi gweld newidiadau sylweddol yn ein hysgolion a'n lleoliadau ar draws Abertawe wrth i ysgolion baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Llawer o ddiolch i'r rhai ohonoch chi sydd wedi rhoi croeso mor gynnes i ni yn eich ystafelloedd dosbarth a chyfrannu at ledaenu cystal arfer da.

ADNODDAU A DDARPERIR AR GYFER YSGOLION

Dylai'r adnoddau hyn fod yn eich ysgolion...



O ganlyniad i hyfforddiant Ysgol Goedwig, mae grŵp rhwydwaith o athrawon wedi llunio'r ddogfen hon i gefnogi a lledaenu arfer da wrth ddysgu yn yr awyr agored.

Dylai'r deunyddiau hyn fod yn eich ysgolion.....

Dealltwriaeth Amlddiwylliannol - syniadau i gefnogi hyn yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn.

Llunio darpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen - syniadau i gefnogi eich darpariaeth barhaus.

Gwneud darpariaeth ar gyfer Dysgu Awyr Agored - syniadau i gefnogi hyn

Cyflwyniad Powerpoint i rieni ynghylch y Cyfnod Sylfaen.

Cyflwyniad i'r Cyfnod Sylfaen - CD a gynhyrchwyd gan AALl Abertawe.

Enghreifftiau o gynllunio darpariaeth barhaus ac uwch.

Os nad oes gennych y deunyddiau hyn, cysylltwch â'r Tîm Sylfaen.

HYFFORDDIANT CENEDLAETHOL Y CYFNOD SYLFAEN

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae llawer o staff ar draws Abertawe wedi mynegi diddordeb mewn dysgu mwy am *Write Dance* ar ôl y modiwl hyfforddiant Datblygiad Plant y tymor hwn. Daethpwyd â hyn at sylw ein cydweithwyr yn y Tîm Llythrennedd a fydd, felly, yn darparu cyfleoedd pellach i staff gael hyfforddiant y flwyddyn nesaf. Cofiwch edrych yma am fwy o fanylion.

Bydd manylion Rhaglen Modiwlau Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hanfon i ysgolion y tymor nesaf.

Meithrin a Derbyn - Modiwlau 1 i 5 ar gyfer staff sydd wedi colli'r hyfforddiant.

Blwyddyn Un - Modiwlau 1-5

Mae modiwlau newydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan weithgorau sy'n gweithio gydag APADGOS a LICC i gynhyrchu'r deunyddiau hyfforddi.

Gwefannau o ddiddordeb…..

www.swanseagfl.gov.uk gwefan Effeithiolrwydd Addysg, sy'n cynnwys gwybodaeth leol berthnasol a manylion am gyrsiau a hyfforddiant.

www.awenmedia.com Dysgu drwy chwarae - meddalwedd, llyfrau a gemau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys llawer o bethau i'w lawrlwytho am ddim ar gyfer y bwrdd gwyn rhyngweithiol a syniadau ar gyfer gemau awyr agored.

http://www.bbc.co.uk/breathingplaces/schools/

Bob tymor, mae'r BBC a PSPB yn darparu gweithgaredd "Gwnewch un peth" syml i chi a'ch plant ei fwynhau.

Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

www.cymru.gov.uk, wedi darparu dogfennaeth i'w lawrlwytho sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen.

Nid yw peth o'r ddogfennaeth bresennol, megis datblygiad mathemategol, ar gael yn hwylus drwy'r wefan; fodd bynnag, gellir cael derbyn copïau drwy ffonio:

0800 083 6003

Newyddion Hyfforddiant Dechrau'n Deg

Mae Emma Amirat yn gweithio gyda lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg, gan archwilio gofynion hyfforddiant staff a'u cynghori ar bob agwedd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau y byddant yn eu cynnig i'r plant maent yn gofalu amdanynt.

Cwblhawyd gwaith mewn cydweithrediad ag Athrawon Cyswllt DD eraill, a chynhyrchwyd pecyn hyfforddiant sy'n cynnwys 5 modiwl. Mae hyn yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg ar hyn o bryd, a bydd yn barod i'w ddosbarthu mewn fformat CD erbyn mis Mehefin, a'i gyflwyno i staff dros y 12 mis dilynol. Bydd hyn yn cydweddu â modiwlau hyfforddiant cenedlaethol y cyfnod sylfaen. Crëir cysylltiadau â thîm DD yn gyffredinol, a fydd yn cynnwys cydweithio ar faterion cysylltiedig.

EARLY EDUCATION

CYMDEITHAS ADDYSG PLENTYNDOD CYNNAR PRYDAIN.

Ar ôl ei hymweliad llwyddiannus ag Abertawe y llynedd, mynegodd Marion Dowling fwy o'i syniadau ar 'Thinking Skills in Young Children' mewn cynhadledd a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Towers, Jersey Marine. Daeth nifer sylweddol o athrawon o Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i'r gynhadledd, a gynhaliwyd ym mis Mehefin.

Mae Marion wedi ysgrifennu llawer o lyfrau ar y Blynyddoedd Cynnar, ond prif nod y gynhadledd oedd ymchwilio i sut mae plant ifanc yn meddwl drwy weithgareddau maent wedi'u dewis eu hunain, sef testun ei hymchwil ddiweddaraf. Mae Marion wedi cynhyrchu deunyddiau cefnogi a hyfforddi sydd ar gael drwy gyhoeddwyr Sage.

I gael manylion llawn am raglen hyfforddiant Addysg Gynnar, gan gynnwys cynadleddau un dydd, cyrsiau dydd a gweithdai dydd Sadwrn, ewch i www.earlyeducation.org.uk

Bydd manylion am ddigwyddiadau hyfforddi a seminarau Addysg Gynnar y flwyddyn nesaf yn cael eu hanfon i ysgolion a'u rhoi ar wefan Effeithiolrwydd Addysg yn yr hydref.

Cynhelir Cynhadledd Hyfforddiant Cenedlaethol BAECE 2009 yn Abertawe ar 9 Mai. Y prif siaradwyr fydd Iram-Siraj Blatchford a Tina Bruce.

Caiff manylion pellach eu hanfon i ysgolion a'u rhoi ar wefan Effeithiolrwydd Addysg.

GWEITHIO MEWN GRWPIAU

Eleni, gwelwyd llawer o athrawon yn gweithio mewn grwpiau rhwydwaith. Dangoswyd yn glir bod gweithio mewn clystyrau neu dimau'n ffordd effeithiol iawn o rannu arbenigedd, lledaenu arfer da a dod o hyd i atebion i faterion tebyg mewn ysgolion ar draws Abertawe.

Mae Effeithiolrwydd Addysg wedi hwyluso gwaith llawer o grwpiau rhwydwaith. Er enghraifft, cynhyrchodd grŵp y Fforwyr Awyr Agored ddeunyddiau ar gyfer yr awdurdod yn dilyn hyfforddiant Ysgol Goedwig. Ffurfiwyd pum grŵp rhwydwaith i hwyluso ymchwil weithredol i bedagogeg yn y Cyfnod Sylfaen gan gynrychiolwyr a fynychodd y cwrs tridiau, 'Dysgu ac Addysgu yn y Cyfnod Sylfaen.' Cydweithiodd y cynrychiolwyr i archwilio materion megis 'Lles', 'Datblygu dewisiadau plant', a 'Defnyddio arsylwi penodol i archwilio lefelau cyfranogiad mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd'. Rhannwyd y gwaith gan y grŵp yn gyffredinol, a chaiff ei ddosbarthu ymhellach ar wefan Effeithiolrwydd Addysg.

.

Cynnyrch ac adnoddau newydd…



Mae Simple City, sydd wedi ennill gwobr BETT, ar gael yn Gymraeg erbyn hyn. Mae'r adnodd hwn wedi llwyddo i symbylu Datblygiad Iaith, Annibyniaeth, Cydweithio a Chwarae Creadigol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae manylion pellach a throsolwg 30 eiliad o'r rhaglen ar gael gan www.2simple.com

Mae Featherstone publications yn parhau i gynhyrchu mwy o lyfrau yn y gyfres 'Little Book'. Ymhlith y teitlau newydd mae 'The Little Book of Games with Sounds' a ' The Little Book of Mark Making.'

Cynhyrchwyd cyfres newydd o lyfrau, a ysgrifennwyd gan Ros Bayley, Lynn Broadbent a Sally Featherstone, gyda'r nod o ddatblygu profiadau mewn tywod, dŵr ac adeiladu ar gyfer athrawon blwyddyn un. Enw'r gyfres yw '*Carrying on in Key Stage 1* '.

Mae TTS wedi cynyddu ei amrediad o gynnyrch sy'n galluogi plant i gyfleu eu syniadau, eu teimladau a'u profiadau. Yn benodol, mae chwaraewr CD Easy Listener i sawl person ei ddefnyddio, sydd ar gael am bris rhesymol ac sy'n cynnwys 6 soced clustffonau. Ceir hefyd 'I-memo', teclyn recordio sy'n cadw hyd at 2 awr o negeseuon.

Ceir mwy o wybodaeth am y cynnyrch hwn a mwy yn www.tts-shopping.com

Ceir manylion am fwy o gynnyrch defnyddiol yn www.learn-ict.org.uk yng nghylchlythyr gwanwyn 2008 o dan y pennawd Y Cyfnod Sylfaen a TGCh

Sylwer:

Ni allwn argymell gynnwys yr holl gyhoeddiadau a gwefannau a restrir. Maent er gwybodaeth yn unig er mwyn i ysgolion unigol ddewis yn briodol ohonynt.

Manylion cyswllt…

Irene de Lloyd– Ymgynghorydd Cynradd
Swyddfa 01792 562660
Llinell uniongyrchol 01792 562696
E-bost: irene.delloyd@swansea.gov.uk

Louisa Reynolds Milnes – Athrawes Ymgynghorol
Swyddfa 01792 562660
Llinell Uniongyrchol 01792 562680
E-bost: louisa.reynolds-milnes@swansea.gov.uk

Emma Amirat- Athrawes Gyswllt Dechrau'n Deg
Swyddfa 01792 612155
E-bost: emma.amirat@swansea.aov.uk

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu gyfraniadau ar gyfer rhifynnau'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol.

Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg

YGG Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd
Penlan
Abertawe SA5

Byddaf yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd secondiad dwy flynedd.

Mae'r secondiad wedi bod yn brofiad gwych a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi croeso mor gynnes i mi yn eu hysgolion a chyfranogi'n frwdfrydig yn yr hyfforddiant.

Bydd June Clifton yn ymuno â thîm y Cyfnod Sylfaen fel Athrawes Ymgynghorol ym mis Medi. Rwy'n gwybod y byddwch i gyd yn rhoi croeso cynnes iddi.

Cofion gorau i bawb

Sian Williams